**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Vaughan Gething AS
Y Prif Weinidog

16 Mai 2024

Annwyl Vaughan,

Cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a Denmarc ar Gyfranogiad Gwladolion y Gwledydd Hyn mewn Rhai Etholiadau os ydynt yn Preswylio yn Nhiriogaeth un o'r Lleill

Yn ei gyfarfod ar 7 Mai 2024, trafododd fy Mhwyllgor y cytundeb rhyngwladol a nodwyd uchod, a osodwyd yn Senedd y DU ym mis Chwefror. Mae'n debygol y byddwch yn ymwybodol bod y cytundeb yn sicrhau'r hawl i wladolion y DU yn Nenmarc a gwladolion Denmarc yn y DU sefyll a phleidleisio mewn etholiadau lleol.

Nodwyd nad oes angen deddfwriaeth ddatganoledig i weithredu'r cytundeb yng Nghymru, gan fod pob gwladolyn tramor sy'n preswylio'n gyfreithiol yn gallu sefyll a phleidleisio yn etholiadau lleol Cymru.

Nodwyd hefyd fod y cyn-Brif Weinidog wedi dod â'r mater isod i sylw'r Llywydd yn y bumed Senedd, yn dilyn casgliad cytundebau tebyg rhwng y DU a chenhedloedd eraill yr UE:

> *"… wrth lunio cytundebau sy'n clymu pob rhan o'r DU i estyn y rhyddfraint i wladolion gwledydd penodol eraill, mae Llywodraeth y DU, mewn gwirionedd, yn cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol y sefydliadau datganoledig yn y dyfodol, gan na fyddai modd i Gynulliad Cenedlaethol ac iddo safbwynt gwleidyddol gwahanol ddeddfu i dynnu'r rhyddfraint oddi ar ddinasyddion o'r fath.*
>
> *Yn achos y cytundebau hyn yn benodol, mae mecanwaith i'w gael ar gyfer addasu'r cytundebau ar hawliau pleidleisio cilyddol, ac rydym wedi pwysleisio bod angen proses ar gyfer gofyn am gael defnyddio'r mecanwaith hwn i ddileu Cymru o gytundeb os bydd Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru arall yn y dyfodol yn mabwysiadu safbwynt polisi sy'n wahanol i'n safbwynt ni."*

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau erbyn dydd Mercher 29 Mai 2024:

- a yw’r mater a godwyd gan y cyn-Brif Weinidog wedi cael ei ddatrys;
- os nad yw'r mater wedi'i ddatrys, a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio unrhyw ddulliau deddfwriaethol, megis cyflwyno diwygiadau i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), i ofyn am ei benderfyniad;
- a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio deddfwriaeth frys i wyrdroi unrhyw gamau deddfwriaethol posibl gan Lywodraeth y DU i ddileu neu gyfyngu ar hawl gwladolion o Aelod-wladwriaeth benodol o'r UE i sefyll a phleidleisio mewn unrhyw etholiadau lleol yn y DU, er mwyn galluogi'r dinasyddion hynny i barhau i gael eu rhyddfreinio mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru.

Bydd fy Mhwyllgor yn gosod ei adroddiad ar y cytundeb maes o law.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,



Sarah Murphy
Cadeirydd